

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y
Fflint) (Gwahardd Cerbydau a
Beicwyr Dros Dro) 2018**

**The A494 Trunk Road (Mold
Bypass, Flintshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles & Cyclists)
Order 2018**

Gwnaed 26 Mawrth 2018

Made 26 March 2018

Yn dod i rym 1 Ebrill 2018

Coming into force 1 April 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Ebrill 2018.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Mold Bypass, Flintshire) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2018 and it comes into force on 1 April 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith (“works period”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 06:00 o’r gloch ar 1 Ebrill 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o’r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“the trunk road”) yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw a elwir yn Ffordd Osgoi’r Wyddgrug yn Sir y Fflint sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan New Brighton i’w chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Gwernymynydd, ac eithrio cerbyttyrdd gylchredol Cylchfan yr Wylfa a Chylchfan Bromfield.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwys

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

26 Mawrth 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“y gefnffordd”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road known as Mold Bypass in the County of Flintshire that extends from its junction with the southern side of New Brighton Roundabout to its junction with the eastern side of Gwernymynydd Roundabout, excluding the circulatory carriageways of Wylfa Roundabout and Bromfield Roundabout;

“works period” (“cyfnod y gwaith”) means intermittent periods commencing at 06:00 hours on 1 April 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride or cause any pedal cycle to be ridden on the length of the trunk road.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

26 March 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494
(FFORDD OSGOI'R WYDDGRUG, SIR Y
FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU A
BEICWYR DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A494 Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y Fflint, neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) a phob beiciwr rhag mynd ar y darn o'r A494 Ffordd Osgoi'r Wyddgrug rhwng ochr ddeheuol Cylchfan New Brighton ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Gwernymynydd, ac eithrio cerbyttyfyrdd gylchredol Cylchfan yr Wylfa a Chylchfan Bromfield. Bydd y gwaith yn cael ei wneud fesul cam fel mai dim ond un rhan o'r ffordd osgoi rhwng unrhyw ddwy gylchfan fydd ar gau ar y tro a bydd arwyddion gwybodaeth yn cael eu harddangos o leiaf 7 niwrnod cyn cau unrhyw ran.

Bydd y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol i nodi'r gwyrriad ar eu cyfer, ar gael drwy fynd ar yr A5119 a'r A541.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol hefyd yn eu cylch, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018 ac yn gweithredu'n ysbeidiol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) hyd at 18 Gorffennaf 2018 ac o 3 Medi 2018 i'r 20 Rhagfyr 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi brint bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (MOLD BYPASS,
FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION
OF VEHICLES AND CYCLISTS) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A494 trunk road at Mold Bypass, Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) and cyclists from proceeding on the length of the A494 Mold Bypass between the southern side of New Brighton Roundabout and the eastern side of Gwernymynydd Roundabout, excluding the circulatory carriageways of Wylfa Roundabout and Bromfield Roundabout. The works will be phased as such that only one section of the bypass between any 2 roundabouts will be closed at a time and information signs will be displayed at least 7 days in advance of any closure.

Alternative routes, which will be signed with appropriate diversion signs, will be available via the A5119 and A541.

The prohibitions, which will also be signed accordingly, are expected to come into force on 1 April 2018 and operate intermittently overnight (19:00 – 06:00 hours) until 18 July 2018 and from 3 September 2018 to 20 December 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

